

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Cymraeg

Ebrill 2022 -
Mawrth 2023

Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Ebrill 2022 – Mawrth 2023

Crynodeb Gweithredol

1.	Cyflwyniad	4
2.	Cefndir a'r sefyllfa bresennol	4
3.	Cydymffurfio â'r Safonau yn ystod 2022/23	5
4.	Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg	9
5.	Sgiliau a hyfforddiant Y Gymraeg	13
6.	Cwynion	17
7.	Casgliad a Chamau Gweithredu ar gyfer y Dyfodol	19

Atodiadau

Atodiad 1	Offeryn Hunan Asesu Sgiliau'r Gymraeg
-----------	---------------------------------------

Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg Ebrill 2022 - Mawrth 2023 Crynodeb Gweithredol

Daeth Safonau'r Gymraeg i rym ar 30 Mawrth 2016 ac roedd yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio gyda'r 146 Safon erbyn y dyddiad hwn. Daeth safonau pellach i rym yn ddiweddarach gan olygu cyfanswm o 171 i gyd. Mae nifer o'r safonau sy'n berthnasol i'r Cyngor yn adlewyrchu'r ymrwymïadau yn ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol a'n harfer presennol a'n hymrwymiad i'r Gymraeg.

Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg hwn yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Mae'n dangos y camau rydym wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r safonau ac yn cynnwys data sy'n ofynnol i ni eu cyhoeddi.

Rydym yn falch o adrodd ein bod wedi parhau i gefnogi Menter Iaith Fflint a Wrecsam i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a hyrwyddo a rhannu ein treftadaeth Gymreig. Cafodd pecynnau gweithgareddau eu darparu i bob cartref gofal yn y sir, gan gynnwys y rhai yn y sector annibynnol, er mwyn cefnogi pobl hŷn i gymryd rhan yn y dathliadau.

Rydym ni'n falch iawn o gyflawniadau myfyrwyr Ysgol Maes Garmon. Bu Darpariaeth Ieuenctid Integredig y Cyngor yn cydweithio â grŵp o bobl ifanc o Ysgol Maes Garmon ar gyfer prosiect peilot 'Cân a Lles'. Roedd y prosiect yn cael ei arwain gan y canwr a'r cyfansoddwr, Tom Collins, a oedd yn cefnogi'r disgyblion ag ysgrifennu, cyfansoddi a recordio cân. Roedd y gân Dal i Ddod yn adlewyrchu profiadau'r myfyrwyr yn ystod y pandemig, y rhai da a'r drwg. Bellach, caiff y recordiad hwn ei chwarae fel un o'r caneuon ar linell dal y lein, Desg Gymorth TG y Cyngor.

Rydym wedi parhau i wneud cynnydd o ran cydymffurfio â'r safonau. Fodd bynnag, bu heriau gyda recriwtio ar gyfer rhai swyddi yn dilyn y pandemig ac mae hyn yn effeithio ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi cael cryn lwyddiant wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg ar gyfer Canolfan Gyswllt y Cyngor. Yn ystod y 12 mis nesaf byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd y gallwn ddatblygu sgiliau Cymraeg ein gweithlu.

Neal Cockerton
Prif Weithredwr

Y Cyngorydd Ian Roberts
Arweinydd y Cyngor

Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022/23

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiadau Cydymffurfio ar y Cyngor yn 2016, yn nodi'r 171 o Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy. Mae'r safonau yn nodi'r hyn a ddisgwylir i'r Cyngor ei wneud a'i ddarparu yn Gymraeg. Mae Hysbysiadau Cydymffurfio yn unigryw i bob sefydliad ac yn adlewyrchu proffil ieithyddol y gymuned leol a'r capasiti sefydliadol i ddiwallu'r safonau.
- 1.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn, fel y nodir yn safonau 158, 164 a 170. Mae rhestr lawn o'r safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy ar gael [yma](#). Mae'r adroddiad hefyd yn cael ei dderbyn yn flynyddol gan Gabinet y Cyngor i'w gymeradwyo cyn ei gyhoeddi.
- 1.3 Dyma ein seithfed adroddiad blynyddol ac mae'n berthnasol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Mae'n nodi'r camau rydym wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r safonau a'r meysydd y mae angen i ni eu gwella.

2.0 Cefndir

- 2.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru, ochr yn ochr â'r Saesneg, gan sefydlu fframwaith cyfreithiol i'w gwneud yn ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i gydymffurfio â safonau newydd y Gymraeg. Mae cyflwyniad Safonau'r Gymraeg yn adeiladu ar yr ymrwymiad blaenorol a wnaed gan y Cyngor gyda'n cynllun Iaith Gymraeg blaenorol.
- 2.2 Dyma amcanion y safonau:
 - Gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau yn y Gymraeg.
 - Cynyddu'r defnydd y mae pobl yn ei wneud o wasanaethau Cymraeg.
 - Ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o ran yr iaith Gymraeg.
 - Sicrhau bod lefel briodol o gysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrff yn yr un sectorau.
- 2.3 Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg bwerau i ymchwilio a chymryd camau yn erbyn y sefydliadau hynny sy'n methu â chydymffurfio â'r Safonau. Mae hyn yn cynnwys gosod cosbau ariannol am ddiffyg cydymffurfiaeth.

- 2.4 Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae'r Ymgynghorydd Polisi Strategol yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o weithredu Safonau'r Gymraeg. Mae ein Rhwydwaith Iaith Gymraeg, Rhwydwaith yr Iaith, yn darparu arweinyddiaeth strategol ac yn cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid. Yr Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden yw cefnogwr y Gymraeg.
- 2.5 Gellir gwneud cwynion am fethu â chyrraedd Safonau'r Gymraeg drwy ddefnyddio ein [Gweithdrefn Gwyno](#). Gall gweithwyr godi pryderon drwy Weithdrefn Gwyno'r Cyngor.

3.0 Cydymffurfio â'r Safonau yn ystod 2022/23

- 3.1 Mae'n ofynnol i ni adrodd ar ein trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r safonau canlynol:
- Safonau Cyflenwi Gwasanaethau
 - Safonau Llunio Polisi
 - Safonau Gweithredu

Mae'r camau a gymerwyd gennym er mwyn cydymffurfio â'r safonau ar gael ar [wefan y Cyngor](#) ac mewn [adroddiadau blynyddol](#) blaenorol. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r camau ychwanegol rydym wedi'u cymryd yn ystod 2022/23.

3.2 Cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaeth

- 3.2.1 Caiff gweithwyr eu hatgoffa'n rheolaidd am Safonau'r Gymraeg a'u cyfrifoldebau. Rhoddir gwybod i weithwyr newydd am y safonau yn ystod y cyfnod sefydlu, a gofynnir iddynt gwblhau'r modiwl e-ddysgu ar ymwybyddiaeth iaith.
- 3.2.2 Yn ystod 2022/23, cwblhawyd ymarfer cwsmer cudd ar sampl o rifau ffôn a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor, er mwyn sicrhau bod cyfarchiad dwyieithog yn cael ei gynnig a bod y galwadau cychwynnol yn cael eu cynnal yn Gymraeg. Cafodd y canlyniadau eu hadolygu gan Rhwydwaith Iaith Gymraeg y Cyngor, Rhwydwaith yr Iaith. Cytunwyd y byddai'r ymarfer yn cael ei gwblhau'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod galwadau Cymraeg cychwynnol yn cael eu cynnal yn Gymraeg, wrth ffonio rhifau llinellau uniongyrchol, sydd ar gael i'r cyhoedd.
- 3.2.3 Yn ystod 2021/22, roedd 27,437 ymweliad â thudalennau Cymraeg gwefan y Cyngor, o gymharu â 3,840,077 ymweliad â'r tudalennau Saesneg. Yn ystod 2022/23, bu gostyngiad yn nifer yr ymweliadau â'r tudalennau Cymraeg a chynnydd o ran y tudalennau Saesneg. Cafwyd 25,133 ymweliad â thudalennau Cymraeg y wefan a 4,556,364 ymweliad â fersiwn Saesneg y tudalennau.

3.2.4 Caiff dewis iaith cwsmeriaid ei nodi ar y pwynt cyswllt cyntaf â'r gwasanaethau. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu "Cynnig Gweithredol", sy'n golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Allan o 6,609 asesiad a gwblhawyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn ystod 2022/23, rhoddwyd Cynnig Gweithredol i 53% ohonynt a manteisiodd 41 unigolyn ar y cynnig. Roedd y Cynnig Gweithredol ar gael ar gyfer pob un o'r 572 asesiad o anghenion Gofalwyr a gwblhawyd yn 2022/23, ond, ni wnaeth neb fanteisio ar y cynnig am wasanaeth Cymraeg.

3.2.5 Gwasanaethau a gynigir yn Gymraeg

Genedigaethau a Marwolaethau

	Saesneg (nifer)	Cymraeg (nifer)
Cofrestru genedigaethau	31	2
Hysbysiadau o Briodas	1286	6
Seremonïau Priodas	471	5 (gydag elfen o Gymraeg e.e. cyflwyniad a diweddglu dwyieithog, addunedau cyfreithiol dwyieithog neu dystysgrifau dwyieithog, ond y seremoni ei hun yn cael ei gynnal yn Saesneg).

Galwadau ffôn

Canolfan Gyswllt	Nifer y galwadau a gynigiwyd yn Saesneg	Nifer y galwadau a gynigiwyd yn Gymraeg
Y Brif Ganolfan Gyswllt (01352 752121)	207,441	1,290
Treth y Cyngor	35,849	52
Ardrethi Busnes	2,480	15
Gorfodi	4,699	8
Dyledion Amrywiol	4,820	57

3.2.6 Mae'r Cyngor yn defnyddio Microsoft Teams i gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau dros y we. Mae trwyddedau wedi'u prynu hefyd ar gyfer Zoom. Mae hyn yn golygu fod gweithwyr sy'n hwyluso cyfarfodydd neu ddigwyddiadau dros y we yn gallu cael mynediad at Zoom pan fydd angen y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, gan sicrhau bod y Safonau Cymraeg perthnasol yn cael eu bodloni.

- 3.2.7 Yn dilyn adolygiad blynyddol Comisiynydd y Gymraeg o gydymffurfiaeth y Cyngor â'r Safonau, cryfhawyd trefniadau ar gyfer sicrhau bod cyfieithiad Cymraeg yn cael ei gynnisg ym mhob cyfarfod pwyllgor sydd yn agored i'r cyhoedd.
- 3.2.8 Lluniwyd canllawiau ar gyfer contractwyr a gweithwyr, yn nodi sut i gydymffurfio â'r safonau o ran arwyddion. Maent wedi'u cyhoeddi ar system gaffael y Cyngor, fel y gall contractwyr gael mynediad atynt wrth gyflwyno tendrau.
- 3.2.9 Mae cyfarfod Rhwydwaith yr Iaith Gymraeg y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i gynnwys hyfforddiant staff, cyfathrebu â'r cyhoedd, cymorth a chefnogaeth, casglu data, monitro perfformiad a gweithredu Mwy na Geiriau. Mwy na Geiriau yw fframwaith Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol.
- 3.2.10 Rydym wedi profi heriau parhaus wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg a gwaethygyd hyn gan yr anawsterau recriwtio presennol ar gyfer yr holl swyddi. Llwyddodd y Ganolfan Gyswllt i recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg i'w Tîm.
- 3.2.11 Rydym yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a phartneriaid, gan gynnwys Menter Iaith Fflint a Wrecsam, y Mudiad Meithrin a Choleg Cambria, i ystyried atebion ar gyfer denu a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg i'n sefydliadau.

3.3 Cydymffurfio â Safonau Lluio Polisi

- 3.3.1 Fe weithiom gyda'n cydweithwyr o gyrff cyhoeddus eraill yng Ngogledd Cymru i ddatblygu templed Asesiad o Effaith rhanbarthol sy'n cynnwys y Gymraeg. Cafodd y templed hwn ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer sylwadau, ac maent wedi eu hymgorffori o fewn y templed.
- 3.3.2 Rydym yn darparu grantiau amrywiol a reolir gan sefydliadau eraill ar ein rhan. Mae ffurflenni cais a meini prawf yn ddwyieithog ac yn cynnwys datganiad yn nodi na fydd oedi cyn ymateb i geisiadau a gyflwynir yn Gymraeg.

3.3.3 Nodir isod nifer y ceisiadau am grant a wnaed drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2022/2023:

	2021/22	2021/22	2022/23	2022/23
Grant	Cyfanswm y Ceisiadau	Nifer y ceisiadau a wnaed yn Gymraeg	Cyfanswm y Ceisiadau	Nifer y ceisiadau a wnaed yn Gymraeg
Cronfa Waddol Gymunedol	9	1	16	1
Cronfa'r Degwm	7	1	9	0

3.3.4 Cytunwyd ar Bolisi'r Gymraeg ar gyfer Dyfarnu Grantiau a chafodd ei weithredu yn ystod 2022/23. Pwrpas y polisi newydd hwn yw sicrhau:

- Bod gwasanaethau yn ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau a chyllid;
- Bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n briodol o fewn unrhyw weithgarwch rydym yn dyfarnu grant ar ei gyfer;
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg; a
- Bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg trwy gydol y broses o ddyfarnu grantiau.

3.3.5 Mae manylion am sut rydym yn cydymffurfio â'r Safonau Lluo Polisi ar gael ar ein [gwefan](#). Mae cyngor ac arweiniad i weithwyr wedi'i gyhoeddi ar fewnwyd y Cyngor.

3.4 Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol

3.4.1 Mae manylion llawn am sut rydym yn cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol ar gael ar ein [gwefan](#).

3.4.2 Mae cyrsiau blasu'r Gymraeg bellach yn cael eu cynnig i weithwyr. Mae'r rhain wedi bod yn boblogaidd ac wedi arwain at nifer o weithwyr yn dewis mynychu hyfforddiant Cymraeg pellach.

3.4.3 Bydd y Polisi Cymraeg yn y Gweithle, a fabwysiadwyd yn 2017, yn cael ei ddiweddarau yn ystod 2023/24. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r nod o gynyddu nifer y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg ac annog ein gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a thu allan i'r gwaith. Rhoddwyd gwahoddiad i Brifysgol Bangor siarad yn un o gyfarfodydd Rhwydwaith yr Iaith yn y dyfodol, gyda'r bwriad i'r Cyngor gymryd rhan yn eu prosiect peilot ARFer. Mae'r prosiect ARFer, sy'n seiliedig ar egwyddorion newid

ymddygiad, yn cefnogi gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, beth bynnag fo lefel eu sgiliau.

3.4.4 Gofynnir i weithwyr newydd ym mha iaith yr hoffent i'w contract cyflogi gael ei ddarparu. Gall gweithwyr ddewis derbyn gohebiaeth fusnes yn Gymraeg. O ran y contractau a gyflwynwyd i weithwyr newydd yn ystod 2022/23, cafodd 11 ohonynt eu darparu yn y Gymraeg.

3.4.5 Mae dogfennaeth arfarnu wedi ei chyhoeddi ar y fewnwyd yn y Gymraeg. Mae gan weithwyr y dewis o gael cyfweliadau/cyfarfodydd disgyblu yn y Gymraeg. Ni chynhaliwyd unrhyw wrandawiadau cwyno neu ddisgyblu yn y Gymraeg yn ystod 2022/23.

3.4.6 Caiff y polisiau canlynol eu cyhoeddi yn Gymraeg:

- Polisi Rheoli Presenoldeb
- Manteision Gweithio i Gyngor Sir y Fflint
- Polisi Galluogrwydd
- Polisi Diogelu Corfforaethol
- Polisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Polisi Urddas yn y Gwaith
- Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb
- Ffurflen gais Gweithio'n Hyblyg
- Polisi Oriau Gweithio'n Hyblyg
- Polisi Maethu i Sir y Fflint
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle

3.5 Trefniadau monitro

3.5.1 Mae ein Rhwydwaith Iaith Gymraeg yn cynnwys cynrychiolwyr o bob portffolio a sefydliadau eraill oedd gynt yn rhan o'r Cyngor, gan gynnwys Aura (llyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden) a Theatr Clwyd. Mae'r Rhwydwaith yn cwrdd bob chwarter. Ymhlith yr eitemau sefydlog ar y rhaglen mae hyfforddiant y Gymraeg, proffil sgiliau Cymraeg gweithwyr, hyrwyddo'r Gymraeg a chwynion. Caiff galwadau i linellau ffôn Cymraeg a Saesneg y Ganolfan Gyswllt eu hadolygu yn y cyfarfodydd hyn hefyd, er mwyn nodi unrhyw wahaniaeth mewn amseroedd aros.

3.5.2 Cyflwynir adroddiadau ar gydymffurfiaeth â'r safonau bob mis i'r Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid (fel arweinydd y Gymraeg) a bob chwarter i'n Tîm Prif Swyddogion. Cyflwynir yr adroddiad blynyddol i'r Cabinet ar gyfer cymeradwyaeth cyn ei fabwysiadu.

4.0 Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

4.1 Anogir gweithwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg drwy fynychu hyfforddiant a ddarperir gan y coleg lleol. Cefnogir gweithwyr i fynychu dosbarthiadau o fewn

amser gwaith. Mae sesiynau Panad a Sgwrs hefyd yn cael eu cynnal unwaith yr wythnos i gynorthwyo dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg mewn amgylchedd diogel. Hwylusir y sesiynau hyn gan siaradwyr Cymraeg.

- 4.2 Mae Cysgliad (Geiriadur, gwiriwr sillafu a gramadeg Cymraeg) ar gael ac wedi'i uwchlwytho ar ddyfais pob gweithiwr. Caiff ei uwchlwytho'n awtomatig ar ddyfeisiau gweithwyr newydd.
- 4.3 Mae adnoddau i gefnogi dysgwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg ar gael ar y fewnwyd ar dudalen ddynodedig ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Caiff gweithgareddau a gynhelir yn y gymuned i gefnogi dysgwyr eu hyrwyddo i'r gweithlu.
- 4.4 Mae cyfres o recordiadau wedi'u creu, sy'n cynnwys ymadroddion a geiriau y gellir eu defnyddio gan swyddogion a chynghorwyr mewn cyfarfodydd. Mae'r recordiadau'n egluro sut i ynganu pob gair ac ymadrodd, fel bod modd eu gweld yn ogystal â'u clywed.



- 4.5 Bu Darpariaeth Ieuenctid Integredig Sir y Fflint yn cydweithio â grŵp o bobl ifanc o Ysgol Maes Garmon ar gyfer prosiect peilot 'Cân a Lles'. Roedd y prosiect yn cael ei arwain gan y canwr a'r cyfansoddwr, Tom Collins, a oedd yn cefnogi'r disgyblion ag ysgrifennu, cyfansoddi a recordio cân. Roedd y gân Dal i Ddod yn adlewyrchu profiadau'r myfyrwyr yn ystod y pandemig, y rhai da a'r drwg. Bellach, mae'r recordiad hwn yn un o'r caneuon ar linell dal y lein, Desg Gymorth TG y Cyngor.
- 4.6 Mae Eglwys Fethodistaidd Bwcle yn cynnal gwasanaeth yn un o'n cartrefi gofal, ar drydydd wythnos bob mis. Defnyddir cymysgedd o Gymraeg a Saesneg gan y gynulleidfa. Mae'r grŵp 'gweu a sgwrsio' yn cynnig sesiwn 'achlysurol' gweu a sgwrsio yn lolfa gymunedol y cartref gofal bob mis. Mae cymysgedd o aelodau Cymraeg a Saesneg yn mynychu'r sesiynau i sgwrsio gyda phreswylwyr.

4.7 Mae plant ysgol yn ymweld â chartrefi gofal yn rheolaidd i ganu i breswylwyr yn y Gymraeg. Mae'r Gwasanaeth Cartref Gofal yn annog eu Timau i ddefnyddio ymadroddion Cymraeg gyda defnyddwyr gwasanaeth.

4.8 Cymraeg Bob Cynllun. Cafodd tîm Cynllun Chwarae'r Sir dros yr Haf eu cefnogi i ddefnyddio mwy o Gymraeg llafar yn ystod ein Cynlluniau Chwarae mynediad agored dros yr Haf. Darparwyd hyfforddiant i'r tîm Cynlluniau Chwarae fel rhan o'u hwythnos hyfforddiant, gyda'r bwriad o roi hwb i'w hyder a chael hwyl yn defnyddio'r Gymraeg. Yn dilyn yr hyfforddiant, roedd y tîm yn llawer mwy hyderus yn cyfarch plant yn y Gymraeg ar bob safle cynllun chwarae ac yn defnyddio'r adnoddau Cymraeg a ddarperir i bob safle. Yn sgil yr hyfforddiant hwn, roedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio ar bob un o'r 57 safle, gyda 4,980 o blant yn elwa o adnoddau Cymraeg ac ymgysylltu â staff.

4.9 Siarter Iaith a Chymraeg Campus

4.9.1 Nod y fframweithiau Siarter Iaith a Chymraeg Campus a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yw hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion, annog disgyblion i wella eu sgiliau Cymraeg a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Mae'r fframwaith Siarter Iaith yn canolbwyntio ar ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mae fframwaith Cymraeg Campus wedi cael ei ddatblygu ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru.

4.9.2 Mae ysgolion cynradd Sir y Fflint yn parhau i groesawu amcanion y Siarter Iaith a Chymraeg Campus, er mwyn cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Dyfarnwyd gwobr Arian, Cymraeg Campus i bedair ysgol a gwobr Efydd, Cymraeg Campus i bedair ysgol ers mis Ebrill 2022. Mae'r 'Criwiau Cymraeg' ym mhob ysgol yn gweithio'n galed i bennu blaenoriaethau'r ysgol a helpu gyda phenderfynu ar weithgareddau ar gyfer eu hysgolion, ac mae rhai'n cynnwys cymuned ehangach yr ysgol yn effeithiol.

4.10 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)

Fel rhan o weithredu'r CSCA, cwblhawyd y gwaith o adnewyddu a rhoi estyniad ar yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn yr Wyddgrug, yn ystod 2022/23. Mae'r ailddatblygiad yn nodi un o'r newidiadau mwyaf i'r ysgol ers iddi agor yn 1949, gyda'r safle bellach yn fwy addas ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu Cymraeg i blant rhwng 3 ac 11 oed. Gosodwyd darpariaeth cyn-ysgol bwrpasol ychwanegol hefyd ar dir Ysgol Glanrafon ar ei newydd wedd a fydd yn darparu cynnig gofal plant ac addysg blyneddoddedd cynnar cyfrwng Cymraeg di-dor i blant a theuluoedd cyn iddynt symud ymlaen i addysg statudol. Cafodd ailddatblygiad Ysgol Glanrafon ei nodi gan Lywodraeth Cymru fel un a fyddai'n debygol o gynorthwyo â'i tharged i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

4.11 Digwyddiadau

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau allweddol i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **15 Hydref 2022 - Diwrnod Su'mae** – fe wnaethom annog gweithwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, beth bynnag fo'u gallu ieithyddol, gyda chydweithwyr, yn ystod cyfarfodydd ac mewn negeseuon e-bost. Gofynnwyd i bob rheolwr ddechrau a gorffen eu cyfarfodydd yn ddwyieithog. Fe wnaethom hefyd roi negeseuon Twitter ar safle Twitter y Cyngor.
- **7 Rhagfyr 2022 - Diwrnod Hawliau'r Gymraeg**- fe wnaethom ni roi fideos ar y cyfryngau cymdeithasol, yn annog ein cwsmeriaid i gysylltu â ni trwy gyfrwng y Gymraeg, ar y cyd â negeseuon eraill, i hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg. Mae'r llun canlynol yn enghraifft o un fideo yn hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael trwy ein Cynlluniau Chwarae a'r Gwasanaeth Ieuentid.



- **Chwefror 2023 - Dydd Miwsig Cymru** – fe wnaethom ni roi negeseuon ar ein cyfrif Twitter i hyrwyddo hyn a thrwy ein Tîm Busnes a'i hyrwyddodd ar gyfer busnesau lleol, er mwyn eu hannog i gymryd rhan. Chwaraeodd Desg Gymorth TG y Cyngor gerddoriaeth Gymraeg ar eu llinell dal y lein ac maent bellach yn cynnwys cerddoriaeth Gymraeg ar eu rhestr chwarae.
- **1 Mawrth 2023 - Dydd Gŵyl Dewi** - fe wnaethom ni gefnogi'r Fenter Iaithe ar gyfer dathlu'r diwrnod hwn, trwy ddarparu cymorth ariannol i ariannu fideos, cystadleuaeth addurno ffenestri a gweithgareddau ar gyfer preswylwyr ym mhob cartref gofal yn y sir. Fe wnaethant weithio hefyd gyda Chyngor Tref Treffynnon i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yng

nghanol y dref. Bu myfyrwyr o'n hysgolion yn perfformio yn rhai o gartrefi gofal y sir.



Myfyrwyr yn perfformio i breswylwyr yn un o'n cartrefi gofal i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

5.0 Sgiliau a Hyfforddiant y Gymraeg

- 5.1 Mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hunanasesu yn erbyn Fframwaith Hyfedredd y Gymraeg. (Atodiad 1). Mae proffil sgiliau Cymraeg gweithwyr yn ôl Portffolio wedi'i nodi yn Nhabl 1. Mae'r tablau'n dangos bod nifer a chanran y gweithwyr sy'n datgan nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg wedi cynyddu rhywfaint ers mis Mawrth 2022. Dywedodd 1,061 (35.97%) o weithwyr nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg ym mis Mawrth 2023, o gymharu â'r 964 (34.27%) o weithwyr a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg ym mis Mawrth 2022.
- 5.2 Gwelwyd rhywfaint o newid yn nifer a chanran y gweithwyr sy'n dweud bod eu sgiliau Cymraeg ar lefelau 4 a 5. Dywedodd 101 (3.42%) o weithwyr eu bod ar lefel 4 a dywedodd 89 (3.02%) eu bod ar lefel 5 ym mis Mawrth 2023, o gymharu â 100 (3.55%) ac 88 (3.13%) o weithwyr, yn y drefn honno, ym mis Mawrth 2022.

Tabl 1: Proffil sgiliau Cymraeg y gweithlu ar 31 Mawrth 2023

Portffolio	Nifer y Staff	Lefel 0	Lefel 0 %	Lefel 1	Lefel 1 %	Lefel 2	Lefel 2 %	Lefel 3	Lefel 3 %	Lefel 4	Lefel 4 %	Lefel 5	Lefel 5 %	Heb gofno di	Heb gofno di %
Prif Weithredwyr	64	19	29.69 %	24	37.50 %	10	15.63 %	5	7.81%	3	4.69%	2	3.13%	1	1.56%
Addysg ac Ieuenctid	288	63	21.88 %	105	36.46 %	36	12.50 %	21	7.29%	19	6.60%	18	6.25%	26	9.03%
Llywodraethu	210	41	19.52 %	101	48.10 %	39	18.57 %	5	2.38%	11	5.24%	7	3.33%	6	2.86%
Tai a Chymunedau	323	116	35.91 %	122	37.77 %	35	10.84 %	11	3.41%	11	3.41%	6	1.86%	22	6.81%
Pobl ac Adnoddau	196	45	22.96 %	87	44.39 %	33	16.84 %	10	5.10%	9	4.59%	7	3.57%	5	2.55%
Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi	194	46	23.71 %	76	39.18 %	24	12.37 %	8	4.12%	11	5.67%	8	4.12%	21	10.82 %
Gwasanaethau Cymdeithasol	1,135	456	40.18 %	414	36.48 %	148	13.04 %	38	3.35%	30	2.64%	31	2.73%	18	1.59%
Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth	540	275	50.93 %	165	30.56 %	43	7.96%	9	1.67%	7	1.30%	10	1.85%	31	5.74%
Cyfanswm	2,950	1061	35.97 %	1094	37.08 %	368	12.47 %	107	3.63%	101	3.42%	89	3.02%	130	4.41%

5.3 Mae gweithgareddau i ddatblygu gweithlu dwyieithog yn cynnwys mentrau i wella sgiliau ein gweithlu presennol ac i ddenu a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg.

Ar gyfer gweithwyr presennol, rydym wedi bod yn:

- Annog gweithwyr i fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg.
- Cynnig sesiynau blasu'r Gymraeg drwy Goleg Cambria - sesiynau dwy awr o hyd am gyfnod o chwe wythnos. Mae'r cyrsiau hyn ar gyfer gweithwyr nad oes ganddyn nhw unrhyw sgiliau Cymraeg.
- Cynnig sesiynau wythnosol Panad a Sgwrs i roi cyfle i ddysgwyr siarad ac ymarfer sgiliau Cymraeg mewn amgylchedd anffurfiol a chefnogol ac o fewn amser gwaith.
- Targedu gweithwyr nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, er mwyn sicrhau eu bod yn cwblhau'r cwrs blasu e-ddysgu iaith Gwaith a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol [Cymraeg Gwaith](#). Cwblhaodd 45 gweithiwr yr hyfforddiant hwn yn ystod 2022/23.
- Parhau i ganiatáu i weithwyr fynychu hyfforddiant sgiliau Cymraeg.
- Darparu hyfforddiant Cymraeg fel rhan o hyfforddiant Arweinwyr Chwarae.

5.4 Hyfforddiant sgiliau Cymraeg.

Mae hyrwyddo hyfforddiant y Gymraeg wedi parhau ar draws y gweithlu. Darperir amser â thal i weithwyr fynychu cyrsiau Cymraeg. Bu cynnydd yn nifer y gweithwyr sy'n mynychu hyfforddiant sgiliau sylfaenol y Gymraeg.

Tabl 2: Nifer y gweithwyr sydd yn mynychu hyfforddiant sgiliau'r Gymraeg

Lefel	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer
Sgiliau leithyddol Sylfaenol	48	1	15	11	4	64
Mynediad	50	34	22	28	28	29
Sylfaen	7	12	6	10	8	7
Canolradd	23	3	2	1	6	9
Uwch	1	9	7	6	3	1
Hyfedredd	10	5	5	3	0	0
Cyfanswm	139	64	57	59	49	110

5.5 Er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol i ni adrodd ar y canlynol:

- nifer y gweithwyr a fynychodd gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

- ii) os oedd fersiwn Gymraeg o'r cwrs yn cael ei chynnig - nifer a % y gweithwyr a fynychodd y fersiwn Gymraeg.

5.6 Mae yna wybodaeth ar dudalennau mewnwyd y Cyngor i hysbysu gweithwyr os ydynt yn dymuno cwblhau unrhyw rai o'r cyrsiau'n Gymraeg i gysylltu â'r Tîm Dysgu a Datblygu Corfforaethol. Mae gan y Cyngor gytundeb anffurfiol gyda Chyngor Gwynedd fod gweithwyr yn mynychu eu cyrsiau cyfrwng Cymraeg.

Mae nifer y gweithwyr a fynychodd gyrsiau penodol yn Gymraeg wedi'i nodi yn y tabl canlynol:

Tabl 3: Proffil hyfforddiant a ddarparwyd drwy gyfrwng y Gymraeg

Math o Hyfforddiant	Nifer a fynychodd y fersiwn Gymraeg	Nifer a fynychodd y fersiwn Saesneg
Cwynion a gweithdrefnau disgyblu	0	129
Delio â'r Cyhoedd	0	0
Iechyd a Diogelwch	0	34
Cyfarfod Sefydlu	0	0
Rheoli Perfformiad	0	0
Recriwtio a Chyfweld	0	0

5.7 Ymwybyddiaeth laith - gwelwyd cynnydd o ran y nifer sydd wedi cwblhau ein cwrs e-ddysgu, cwblhaodd 1129 o weithwyr y cwrs hwn yn 2022/23, o gymharu â 401 o weithwyr yn 2021/22.

5.8 Mae proses ar waith i asesu'r sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer swyddi newydd. Datblygwyd dull o gofnodi'r nifer o swyddi sydd wedi eu hasesu fel dymunol neu hanfodol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgan nifer y swyddi newydd a gwag a gafodd eu categorio fel swyddi lle:

- i) roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol
- ii) roedd angen dysgu Cymraeg ar ôl penodiad
- iii) roedd y Gymraeg yn ddymunol
- iv) nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol

Mae'r data ar gyfer 2022/2023 wedi eu nodi isod:

Categori	Nifer y swyddi wedi'u categorio	Canran y swyddi wedi'u categorio
Y Gymraeg yn hanfodol	1	2.50%
Y Gymraeg yn ddymunol	0	0
Angen dysgu Cymraeg	0	0
Dim angen unrhyw sgiliau Cymraeg	40	97.50%

O gymharu â'r blynyddoedd blaenorol:

Categori	Nifer					
	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
Y Gymraeg yn hanfodol	17	8	14	2	3	4
Y Gymraeg yn ddymunol	9	40	42	12	2	2
Angen dysgu Cymraeg	0	0	0	0	9	0
Dim angen unrhyw sgiliau Cymraeg	277	185	207	66	46	46

6.0 Cwynion

- 6.1 Mae gwefan y Cyngor yn cynghori pobl bod y polisi Cwynion hefyd yn berthnasol i gwynion am y Gymraeg, ac mae unrhyw gwynion o'r fath yn cael eu copïo fel mater o drefn i'r Ymgynghorydd Polisi Strategol i'w monitro. Mae'r weithdrefn Gwynion i'w gweld [yma](#).
- 6.2 Mae cwynion am y Gymraeg yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd Rhwydwaith yr Iaith.
- 6.3 Yn ystod 2022/23, fe wnaethom dderbyn un cwyn yn uniongyrchol ynghylch cyfieithiad anghywir ar arwydd mewn perthynas â'r Gymraeg. Roedd yr arwydd wedi'i ddarparu gan gwmni rheoli traffig a oedd yn gweithio ar ran contractwr gosod wyneb ffordd. Cafodd yr arwydd ei newid ar unwaith. Mae'r cwmni rheoli traffig wedi derbyn copi o ganllawiau'r Cyngor ar arwyddion, er mwyn sicrhau y bydd arwyddion cywir yn cael eu gosod yn y dyfodol.

- 6.4 Cafodd pum cwyn eu gwneud yn uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg. Nodir manylion y cwynion hyn isod:

Cwynion a wnaed yn uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg		
Darpariaeth Gwasanaeth Cwynion	Manylion	Canlyniad a'r camau a gymerwyd
Y Cyngor – rhifau ffôn llinellau uniongyrchol	Canfu Comisiynydd y Gymraeg nad oedd y Cyngor yn cydymffurfio â Safon 19 (mae'n rhaid cynnal galwadau cychwynol rhifau ffôn llinellau uniongyrchol yn Gymraeg). Ni wnaeth y Cyngor gydymffurfio â rhoi'r trefniadau newydd ar waith mewn pryd.	Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg i ddarparu canllaw i weithwyr er mwyn sicrhau eu bod nhw'n rhoi ystyriaeth ofalus i gydymffurfio ag unrhyw gamau gorfodi arfaethedig a bod y canllaw yn cael ei lunio i sicrhau bod gweithwyr yn cydymffurfio â phenderfyniadau'r Comisiynydd.
Llywodraethu a Chynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi – Ffôn, gohebiaeth, galwadau ffôn	Ni wnaeth yr achwynydd dderbyn ymateb i e-bost Cymraeg a anfonwyd at yr adran Gynllunio. Roedd galwadau ffôn Cymraeg yn cael eu hateb yn Saesneg. Ni ofynnwyd i'r achwynydd am eu dewis iaith ar gyfer gohebiaeth ac anfonwyd fersiwn uniaith Saesneg o'r newyddlen atynt.	Nid yw canlyniad yr ymchwiliad yn hysbys eto. Camau a gymerwyd: Mae Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi yn rhoi siarter safonau cwsmeriaid ar waith ac mae proses newydd ar gyfer ymateb i ohebiaeth e-bost wedi'i gweithredu. Mae'r Ganolfan Gyswllt bellach wedi recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg sy'n gallu ateb galwadau Cymraeg. Mae newyddlenni Cymraeg bellach yn cael eu hanfon at y cwsmer.
Llywodraethu	Cynhaliwyd y sgwrs gychwynol yn Saesneg wrth i gwsmer ffonio llinell ffôn Gymraeg y Ganolfan Gyswllt.	Mae hyn yn cael ei ymchwilio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar hyn o bryd.
Gwasanaethau Stryd	Cwynodd cwsmer nad oedd llofnodion e-bost a neges allan o'r swyddfa yn ddwyieithog. Roedd y neges ateb ar y ffôn yn uniaith Saesneg.	Mae hyn yn cael ei ymchwilio ar hyn o bryd. Mae'r Prif Swyddog Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth wedi anfon nodiadau atgoffa at bob

		gweithiwr yn y Portffolio. Anfonodd y Prif weithredwr nodiadau atgoffa hefyd.
Llywodraethu - Profi, Olrhain, Diogelu	Gofynnodd un gweithiwr i weithiwr arall roi'r gorau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod, gan ddisgrifio defnyddio'r Gymraeg mewn grŵp fel "sibrwd".	Nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn ymchwilio i'r mater hwn, ond mae wedi gofyn beth mae'r Cyngor yn ei wneud i atal hyn rhag digwydd eto. Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu Corfforaethol yn comisiynu hyfforddiant ar gyfer codi ymwybyddiaeth, chwalu rhai stereoteipiau a chefnogi gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn y gweithle.

7.0 Casgliad a Chamau Gweithredu ar gyfer y Dyfodol

- 7.1 Wrth symud ymlaen yn ystod 2023/24, byddwn yn diweddarau Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle a Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd y rhain yn cyfrannu at godi proffil a hygrywedd y Gymraeg. Mae cynyddu'r nifer o weithwyr sy'n siarad Cymraeg bellach yn gam gweithredu yng Nghynllun y Cyngor 2023-28.
- 7.2 Byddwn yn comisiynu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi ar gyfer cefnogi gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gan gynnwys cwrs i reolwyr ar reoli timau dwyieithog.
- 7.3 Byddwn yn parhau i lenwi'r hunanasesiadau yn erbyn safonau'r Gymraeg er mwyn rhoi sicrwydd bod gwasanaethau'n cydymffurfio a nodi meysydd eraill i'w gwella.

Atodiad 1 OFFERYN HUNANASESU SGILIAU'R GYMRAEG

	GWRANDO / SIARAD	DARLLEN / DEALL	YSGRIFENNU
LEFEL 0	<ul style="list-style-type: none"> • Dim gallu sylweddol 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim gallu sylweddol 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim gallu sylweddol
LEFEL 1	<p style="text-align: center;">Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau ac ati. • Cyfarch a deall cyfarchiad. • Defnyddio geiriau ac ymadroddion sylfaenol a ddefnyddir bob dydd, e.e. diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi ac ati. • Deall / trosglwyddo ceisiadau llafar syml o fath arferol / cyfarwydd / rhagweladwy gan ddefnyddio iaith syml, e.e. 'Ga i siarad â...' • Nodi ceisiadau syml a dilyn cwestiynau / ceisiadau ychwanegol mewn ffordd gyfyngedig. 	<p style="text-align: center;">Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall geiriau a brawddegau allweddol syml ar faterion cyfarwydd / rhagweladwy sy'n ymwneud â maes fy swydd fy hun, e.e. ar arwyddion, mewn llythyrau. 	<p style="text-align: center;">Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llenwi ffurflenni syml, nodi gwybodaeth syml, e.e. dyddiad a lleoliad cyfarfod, cyfeiriad Cymraeg, ac ati.
LEFEL 2	<p style="text-align: center;">Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall prif bwyntiau sgorsiau Cymraeg yn y gwaith. • Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. • Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml. • Mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyhyd â bod y pwnc yn un cyfarwydd. • Deall cyfarwyddiadau pan gaiff iaith syml ei defnyddio. 	<p style="text-align: center;">Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall gwybodaeth ffeithiol, arferol a phrif bwyntiau gwybodaeth anarferol ar faterion cyfarwydd sy'n gysylltiedig â maes fy swydd fy hun, e.e. mewn llythyrau safonol, taflenni, ac ati. 	<p style="text-align: center;">Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu nodiadau / llythyrau / negeseuon syml byr ar ystod gyfyngedig o bynciau rhagweladwy sy'n gysylltiedig â'm profiadau personol neu faes fy swydd fy hun.
LEFEL 3	<p style="text-align: center;">Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall llawer o'r hyn a ddwedir mewn swyddfa, cyfarfod ac ati. • Cynnal sgwrs syml ar bwnc sy'n gysylltiedig â gwaith, ond efallai y bydd angen troi i'r Saesneg i drafod / adrodd ar wybodaeth gymhleth neu dechnegol. • Ateb cwestiynau rhagweladwy neu ffeithiol. • Cymryd a throsglwyddo'r mwyafrif o negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw. • Cynnig cyngor ar faterion syml sy'n ymwneud â'r swydd. 	<p style="text-align: center;">Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sganio testunau am wybodaeth berthnasol. • Deall tipyn o ohebiaeth arferol ac anarferol sy'n gysylltiedig â'r swydd, llenyddiaeth ffeithiol, ac ati pan ddefnyddir iaith safonol. 	<p style="text-align: center;">Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu llythyr manwl / disgrifiadol yn ymwneud â maes fy swydd fy hun, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg ei wirio. • Gwneud nodiadau eithaf cywir tra bydd rhywun yn siarad.
LEFEL 4	<p style="text-align: center;">Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal sgwrs estynedig am dipyn o bopeth yn ymwneud â gwaith neu roi cyflwyniad yn gymharol rugl gan allu mynegi fy hun yn eithaf eang ond efallai y byddai angen troi at y Saesneg i ateb cwestiynau annisgwyl neu egluro pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol. • Cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd a seminarau o fewn eich maes gwaith. • Dadlau o blaid/yn erbyn achos. 	<p style="text-align: center;">Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darllen a deall gwybodaeth yn eithaf cyflym cyn belled nad oes geirfa anarferol yn cael ei ddefnyddio ac nad yw'r wybodaeth yn benodol gymhleth neu dechnegol. 	<p style="text-align: center;">Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Paratoi llythyrau ffurfiol o lawer o fathau cyfarwydd fel ymholiadau, cwynion a cheisiadau. • Gwneud nodiadau eithaf cywir mewn cyfarfodydd neu gyfarwyddiadau syml. • Ysgrifennu adroddiad / dogfen yn ymwneud â maes fy swydd fy hun, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg ei wirio.
LEFEL 5	<p style="text-align: center;">Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyngori / siarad am faterion arferol, anarferol, cymhleth, dadleuol neu sensitif sy'n gysylltiedig â fy mhrofiadau fy hun. • Rhoi cyflwyniad/ arddangosiad. • Delio'n hyderus gyda chwestiynau anghyfeillgar neu annisgwyl. • Cynnal trafodaethau gan ddefnyddio termau cymhleth / technegol. • Cynnal cyfweiliadau â'r cyfryngau. 	<p style="text-align: center;">Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall syniadau cymhleth a gwybodaeth a fynegir mewn cyd-destun neu iaith arbenigol mewn dogfennau, adroddiadau, gohebiaeth ac erthyglau ac ati. 	<p style="text-align: center;">Rwy'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu llythyrau ar unrhyw bwnc. • Ysgrifennu nodiadau cywir / llawn mewn cyfarfodydd wrth barhau i ddilyn trafodaethau a chymryd than ynddynt • Ysgrifennu adroddiadau / dogfennau yn hyderus, ond efallai bydd angen eu gwirio am fân wallau o ran sillafu a gramadeg

